Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Dechrau'n Deg Jesse Hughes**

**Flying Start Jesse Hughes**
**Canolfan Jesse Hughes**
**Kingsland**
**Caergybi**
**LL65 2SY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/03/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Dechrau'n Deg Jesse Hughes yn gweithredu o'i ystafelloedd penodol ei hun yng Nghanolfan Ieuenctid a Chymunedol Jesse Hughes yng Nghaergybi, Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 26 o blant a chaiff gofal ei ddarparu i blant rhwng dwy a thair oed. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 9:00am a 11:30am a 12:15pm a 2:45pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Y personau cofrestredig yw Amanda Taylor a Kim Aston, a Kim yw'r person â chyfrifoldeb hefyd. Siaredir Cymraeg a Saesneg yn y gwasanaeth, yn dibynnu ar famiaith pob plentyn unigol. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arwain a Rheoli | Da |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal ac â'i gilydd. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac maent yn gweithio'n galed er mwyn helpu'r plant i ddysgu sgiliau cymdeithasol da. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau diddorol iddynt. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mae pob ardal yn groesawgar ac yn ddiddorol i'r plant. Mae'r personau cofrestredig yn sicrhau bod pob ardal yn ddiogel a bod unrhyw risgiau yn cael eu rheoli yn briodol. Mae cydberthnasau da wedi cael eu ffurfio â'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol o'r cynllun Dechrau'n Deg a rhennir gwybodaeth yn effeithiol, gan sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu.

### 2. Gwelliannau

Roedd y personau cofrestredig wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol. Er enghraifft, roedd y plant yn cael cyfle i dreulio amser yn yr ardal chwarae awyr agored bob dydd ac roedd mwy o adnoddau amlddiwylliannol a naturiol wedi cael eu prynu.

Yn ystod yr arolygiad hwn, dechreuodd y person cofrestredig gasglu copïau o ail ddogfennau adnabod ar gyfer ffeiliau'r staff ar unwaith.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas â chyfleoedd i'r plant wneud pethau drostynt eu hunain a chadw cofnodion.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn hyderus.  Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau.  Mae digon o weithgareddau ar gael fel y gall y plant ddysgu a datblygu eu sgiliau drwy chwarae.

### Ein canfyddiadau

Gall y plant wneud penderfyniadau a dewis sut maent yn treulio eu hamser; maent yn symud o gwmpas y gweithgareddau sydd ar gael a'r ardaloedd chwarae yn rhydd.  Maent yn awyddus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a siarad â'r staff yn ystod amser cylch am fod y staff gofal yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud ac yn ei werthfawrogi.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r gweithgareddau a'r drefn ddyddiol, sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt.  Maent yn setlo'n gyflym ar ôl cyrraedd ac maent yn awyddus i ymuno â'u ffrindiau i chwarae. Mae'r plant y teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'r staff gofal am sicrwydd neu gysur pan fo angen ac maent yn awyddus i ddangos eu gwaith celf am eu bod yn gwybod y byddant yn cael canmoliaeth am eu gwaith.  Mae'r plant wedi dechrau gwneud ffrindiau a sgwrsio gyda'i gilydd, gyda llawer o wenu a chwerthin wrth iddynt chwarae.

Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau.  Maent y chwarae'n dda gyda'i gilydd ac yn dechrau gwneud ffrindiau, gan ddangos ymwybyddiaeth o deimladau pobl eraill.  Er enghraifft, aeth un plentyn draw at blentyn iau a oedd newydd ymuno â'r cylch, dal ei law a'i arwain at yr ardal gerddoriaeth i chwarae. Gall y plant rannu teganau a chymryd eu tro yn dda, er enghraifft wrth rannu'r clai a'r rholbrennau ac wrth aros eu tro i ddefnyddio'r llithren.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae ac maent y cael hwyl yn cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael.  Maent yn canolbwyntio'n dda ar dasgau ac yn dangos diddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud.  Er enghraifft, roedd grŵp o blant yn mwynhau creu lluniau gyda phaent a stampiau sbwng ac yn cael llawer o hwyl yn arbrofi drwy gymysgu paentiau o liwiau gwahanol â'i gilydd a rhoi cynnig ar y stampwyr gwahanol.

Mae'r plant yn dysgu i wneud pethau drostynt eu hunain am eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y staff gofal. Caiff y plant eu hannog i wisgo eu hunain wrth chwarae â'r gwisgoedd, gwisgo eu cotiau eu hunain, mynd i nôl eu clustogau eu hunain ar gyfer amser cylch a golchi eu dwylo eu hunain. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd gweinir bwyd i'r plant, a byddent yn cael budd o gael mwy o gyfleoedd i helpu i baratoi eu byrbrydau eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff gofal yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yn llwyddiannus er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn defnyddio ffyrdd effeithiol o helpu'r plant i rannu a chymryd eu tro ac maent yn adnabod y plant yn dda. Mae'r staff yn defnyddio dulliau arloesol i gynllunio gweithgareddau yn unol ag anghenion unigol y plant ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol â'r rhieni er mwyn sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu eu sgiliau'n dda.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff gofal yn deall eu rolau ac yn dilyn y gweithdrefnau cywir er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Maent i gyd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu a gallai'r staff hynny y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn petai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff gofal i gyd hefyd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Caiff unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau eu cofnodi'n llawn a'u llofnodi gan y rhieni. Dywedodd y person cofrestredig wrthym fod y plant yn cael ymarfer tân o leiaf unwaith bob tymor. Fodd bynnag, nid oedd pob ymarfer tân yn cael ei gofnodi.

Mae'r staff gofal yn hybu bwyta'n iach ac ymarfer corff; maent yn darparu byrbrydau iach ac yn cynllunio cyfleoedd i'r plant dreulio amser yn yr awyr agored. Maent hefyd yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol wrth drin bwyd. Caiff y plant eu hannog hefyd i frwsio eu dannedd yn ddyddiol, sy'n hybu pwysigrwydd hylendid deintyddol.

Mae gan y staff gofal gydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â nhw yn annwyl ac yn rhoi cysur a sicrwydd pan fydd eu hangen ar y plant. Ymdrinnir ag unrhyw ddadleuon neu ymddygiad amhriodol mewn modd cadarnhaol. Er enghraifft, pan aeth y plant yn fwy afreolus wrth chwarae â'r ceir, gwnaeth y staff gofal dynnu eu sylw drwy ofyn iddynt '*If you want to make the cars go really fast, why don't you race them here on the mat?'.* Aeth y plant â'u ceir draw at y mat yn gyflym er mwyn dechrau eu ras. Mae'r staff gofal yn modelu cymryd tro a rhannu drwy gydol y dydd, ac maent yn rhoi digon o ganmoliaeth am ddilyn cyfarwyddiadau a chwblhau gweithgareddau.

Mae'r staff gofal yn adnabod y plant yn dda ac maent yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Maent yn casglu digon o wybodaeth am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau mynychu, sy'n eu helpu i gynllunio yn effeithiol. Dewisir thema wahanol i'r plant ei dilyn bob tymor a chynllunnir amrywiaeth eang o weithgareddau yn unol â'r thema hon. Roedd samplau o waith y plant ar gael i ddangos y cynnydd roedd y plant yn ei wneud yn y gwasanaeth, yn ogystal â nodiadau arsylwi, lluniau ac asesiadau.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel lle y caiff risgiau eu rheoli yn briodol. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac mae'r holl ardaloedd yn groesawgar i'r plant. Mae amrywiaeth eang o ardaloedd chwarae diddorol a chyffrous yn galluogi'r plant i ddefnyddio eu dychymyg a dysgu am y byd o'u cwmpas drwy chwarae.

### Ein canfyddiadau

Mae'r rhai sy'n rhedeg y gwasanaeth yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff gofal yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd, mae'r adeilad a'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel, sy'n sicrhau na allai unrhyw bersonau heb awdurdod gael mynediad i'r safle. Mae gan yr arweinwyr asesiadau risg ysgrifenedig ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a sut y caiff y rhain eu rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u dyddio i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae digon o le ym mhob un o'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant, ac maent yn lliwgar ac yn groesawgar. Mae'r ystafell chwarae wedi'i threfnu yn ardaloedd dysgu, sy'n rhoi amrywiaeth o weithgareddau diddorol a chyffrous i'r plant. Caiff teganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol. Mae'r dodrefn, fel byrddau a chadeiriau isel, yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae ffotograffau a samplau o waith y plant wedi'u harddangos ar hysbysfyrddau, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ardaloedd awyr agored yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae er mwyn datblygu eu dychymyg, gan gynnwys cegin fwd bren, llithren, ardal blannu, teganau reidio a darnau rhydd.

Mae'r rhai sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau i'r plant sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas ar gyfer eu hoedrannau a'u camau datblygu. Maent yn lân ac mewn cyflwr da, a chedwir cofnodion manwl yn nodi pryd y cânt eu sterileiddio a'u gwirio. Mae'r arweinwyr yn defnyddio deunyddiau naturiol, cynaliadwy ac wedi'u hailgylchu lle y bo'n bosibl. Er enghraifft, roedd nifer o'r teganau wedi'u creu o bren, roedd amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ar gael i'r plant eu harchwilio ac roedd deunyddiau naturiol megis dail, brigau a moch coed ar gael ar y bwrdd darganfod. Mae adnoddau amlddiwylliannol a Chymreig ar gael hefyd er mwyn i'r plant ddysgu mwy am y byd y maent yn byw ynddo.

## 4. Arwain a Rheoli Da

### Crynodeb

### Ein canfyddiadau

Mae'r rhai sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â nhw yn effeithiol ac yn gwneud yn siŵr bod polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn cael eu dilyn yn effeithiol. Fodd bynnag, ni chaiff pob polisi ei adolygu yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, sy'n golygu y gallai'r rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a fyddai'r gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion eu plentyn a'u hanghenion nhw.

Mae'r rhai sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i ddatblygu a gwella. Cawsom sgwrs â'r person cofrestredig am y modd yr oedd yn adolygu ansawdd y gofal. Nododd ei bod yn gofyn am adborth yn rheolaidd ar lafar gan y rhieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron adborth at y rhieni, y staff gofal a'r gweithwyr proffesiynol eraill a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Roedd yr arweinwyr hefyd yn ceisio barn y plant drwy siarad â nhw ac yn ystod arsylwadau dyddiol, er enghraifft drwy wylio pa adnoddau oedd yn well gan y plant a'r rhai nad oeddent yn eu defnyddio. Gwnaethom edrych ar adroddiad y llynedd a oedd yn amlinellu'r adolygiad o'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys pa welliannau oedd wedi cael eu gwneud a'r rhai a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol mewn ymateb i'r adborth a gafwyd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff gofal yn cael hyfforddiant rheolaidd ac yn cael cymorth er mwyn cyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol. Er mai dim ond un ddogfen adnabod oedd yn cael ei chadw yn ffeiliau'r staff a welsom, roedd y person cofrestredig wedi gweld dwy ddogfen adnabod fel rhan o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Dechreuodd y person cofrestredig gasglu ail ddogfennau adnabod ar unwaith hefyd. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn gallu mynd at yr arweinwyr ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu eu hanghenion hyfforddiant. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff bod arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio'r staff wedi cael eu cynnal.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth ar ffeil o wybodaeth a gasglwyd gan y rhieni a oedd yn nodi anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Dywedodd y rhieni wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff, a oedd yn rhannu gwybodaeth ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn, drwy grŵp caeedig ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy negeseuon testun. Roedd yr arweinwyr hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gweithwyr proffesiynol o gynllun Dechrau'n Deg, gan sicrhau bod y plant a'r rhieni yn cael cymorth cyson gan yr holl weithwyr proffesiynol sy'n rhan o bob agwedd ar ofal y plentyn.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion canlynol i'r arweinwyr eu hystyried:

R1. rhoi cyfleoedd i'r plant helpu gyda thasgau yn ystod amser byrbryd er mwyn datblygu eu hannibyniaeth;

R2. cadw cofnodion cywir o'r holl ymarferion tân sy'n cael eu cynnal er mwyn dangos bod y rhain yn digwydd yn rheolaidd;

R3. nodi'r dyddiad y caiff asesiadau risg a pholisïau eu hadolygu;

R4. cadw copïau o ddwy ddogfen adnabod yn ffeiliau pob aelod o'r staff.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 11 Mawrth 2020 rhwng 10:20am a 2:55pm.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar ymarfer a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r ffordd y mae'r plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y staff, y person a'r person cofrestredig a thri rhiant;
- edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- rhoi adborth manwl i'r person cofrestredig ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion i fynd i'r afael â nhw.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Amanda Taylor**<br>**Kim Aston** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Kim Aston** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **26** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-3 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 9:00am a 11:30am a 12:15pm a 2.45pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **14 Chwefror 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **11 Mawrth 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2020

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.